Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 31 MAWRTH 2009

Wrth i ni ddod at ddiwedd un mis a dechrau mis arall, felly hefyd yw hi gydag arddangosfeydd ym Morlan gan fod y Llunwyr Lluniau – grŵp o artistiaid yn gweithio yng Nghanolbarth Cymru – yma heddiw yn gosod eu harddangosfa ddiweddaraf yn y Bar Coffi. Mae'r arddangosfa yn dwyn y teitl Cwm ac mae'n gasgliad o luniau wedi'u hysbrydoli gan gerddi Dai Jenkins. Agorir yr arddangosfa'n swyddogol fore Sadwrn mewn bore coffi (10.00-12.00) ac estynnir croeso cynnes i unrhyw un alw draw a chwrdd â'r arlunwyr. Bydd yr elw yn mynd tuag at y gangen leol o Riding for the Disabled.

Fel rhan o ddathliadau Pasg y Morlan, byddwn yn dangos y ffilm ddogfen ***The Face: Jesus in Art*** am 7.00, nos Fawrth nesaf (7 Ebrill) ac eto ar yr un amser nos Fercher (8 Ebrill). Fel y nodwyd yn yr e-fwletin diwethaf, mae'r ffilm yn olrhain y ffyrdd gwahanol y mae Iesu wedi ei gynrychioli mewn celf drwy hanes ac ar draws y byd, gan ein tywys o Rufain Hynafol i America'r 20fed ganrif, o Ewrop i'r Dwyrain Canol. Mae hi wedi derbyn adolygiadau arbennig iawn, felly gobeithiwn yn fawr y byddwch yn dod i'w gweld. Mae mynediad am ddim ond gwahoddir cyfraniadau.

Tynnir eich sylw hefyd at dri digwyddiad arall sy'n cymryd lle yn y Morlan dros y misoedd nesaf – rydych yn cael digon o rybudd ohonynt felly ni fydd gennych esgus i'w methu!

- 7.30, nos Lun, 27 Ebrill: Dweud ei Ddweud – anerchiad gan y Parchedig Ddoctor Vivian Jones, un o sylfaenwyr Cristnogaeth 21, ar y thema *"Cristnogaeth Radical mewn Eglwys Geidwadol"* gyda chyfle i drafod y mater wedyn. Mynediad am ddim.

- 7.30, nos Lun, 18 Mai: Noson o Farddoniaeth gydag Iwan Llwyd a Meirion MacIntyre Huws. Cyfle i gymdeithasu a gwrando ar farddoniaeth gyda'r elw yn mynd tuag at y Morlan.

- 7.30, nos Fercher, 1 Gorffennaf: *Chasing Rainbows* – cyflwyniad Theatr Hijinx o ddrama ddiweddaraf Glenys Evans sy'n ymdrin â chael eich cynnwys . Fe'i bwriadwyd ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu a'r gymuned leol. Cafodd ddrama ddiwethaf Glenys Evans ganmoliaeth fawr wedi iddi gael ei pherfformio yn y Morlan ac rwy'n sicr y bydd hon yr un mor llwyddiannus.

Os gwyddoch am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr